ATODIAD 'CH'

ADRODDIAD Y CYNGOR

Gwelwyd 2021 yn dod a rhyw fath o normalrwydd yn dilyn cyfnod anodd a chymhleth yn dilyn COFID19. Cynhaliwyd y mwyafrif o'r cyfarfodydd drwy'r dechnoleg fodern 'zoom' ond bu i'r Gymdeithas allu cynnal rhai gweithgareddau.

Er yr holl waharddiadau a'r ansicrwydd ynglyn a CHOFID, bu'n bosibl cynnal diwrnodau i archwlio meheryn ond 'roedd rhaid dilyn y canllawiau a'u cynnal yn y marchnadoedd ac nid ar unrhyw fferm. Cynhaliwyd yr archwiliadau hynny ledled y Deyrnas Unedig ond eto oherwydd yr ansicrwydd ni fu'n bosibl mynd i lawr i Dde lwerddon ac yn wyneb hyn pendodwyd tri aelod i wneud yr archwiliadau ar ran y Gymdeithas. Cafodd y Gymdeithas gefnogaeth dda i'r digwyddiadau hyn ac 'roedd hyn yn galondid o ddeall fod calon a phwysigrwydd y brid ym meddwl ein haelodau. Fel arfer 'rydym yn hynod o ddiolchgar i'r Tîm Archwilio am eu gwaith diflino yn trefnu a theithio'r wlad – diolch i chwi eich dau! Hefyd, wrth gwrs 'rydym yn ddiolchgar iawn i'r tri ymgymerodd â'r gwaith i lawr yn Ne lwerddon – gwerthfawrogi'r eich cyfraniad chwithau.

Yn nesaf gwelwyd taith weledol ar fferm Stuart Morris (diadell 273) a'i fugail Ernie Richards. Bu hwn yn llwyddiant ysgubol. Diolch Stuart ag Ernie am hyrwyddo'r brid ar ran y Gymdeithas.

Yn dilyn cais gan aelodau newydd cynhaliwyd gweithdy ym mis Awst – gwelwyd nifer yn mynychu. Gobeithir cynnal gweithdy cyffelyb unwaith yn rhagor.

Yna daeth yr Hydref a thymor yr arwerthiannau – gyda'r ansicrwydd yn dal i fodoli 'roedd y Gymdeithas yn hapus iawn o weld yr aelodau yn cefnogi oll o'r arwerthiannau a'r anifaeliaid yn dod a phrisiau da i'w bridwyr. 'Roedd hyn yn galonog yn enwedig mewn amser anodd.

Fel y gwelwyd yng nghofnodion Cyfarfod Cyffredinol Arbennig y Gymdeithas gynhaliwyd 20fed Hydref, 2021, mae'r rheolau newydd bellach wedi eu mabwysiadu ac wedi eu haddasu i gydymffufio â Deddfau newydd a.y. Gellir gweld y Rheolau hyn ar wefan y Gymdeithas www.lleynsheep.com
Yn yr un modd mae y Côd Ymddygiad wedi ei uwchraddio – gweler ar y wefan www.lleynsheep.com

A ninnau ar drothwy mis Hydref cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf wyneb yn wyneb yn Tewkesbury – cyfarfod o'r Cyngor ar Nos Wener yn cael ei ddilyn gan

y Cyfarfod Blynyddol ar y dydd Sadwrn. Grŵp Midlands oedd yn trefnu ac mae'n diolch yn fawr iddynt am eu croeso.

Cam pwysig arall a gymerwyd gan y Cyngor oedd symud i gadw'r cyfrifon ar feddalwedd Xero. Er gwybodaeth i chwi bydd system Grassroots yn dal i godi'r anfonebau ond bydd yr arian yn cael eu prosesu drwy Xero. Tra ar y pwnc ariannol, oherwydd cynnydd sylweddol yng nghostau delio gyda sieciau Euro, bu i'r Cyngor benderfynu fod yn rhaid i bob arian dderbynir drwy Euro gael ei dalu'n uniongyrchol i gyfrif Euro y Gymdeithas.

Fel yr adroddwyd yn adroddiad y Cyngor i'r Cyfarfod Blynyddol y llynedd, bwriad y Gymdeithas yw mynd yn gymdeithas ddi-bapus yn y dyfodol agos ac anogir pob aelod i gysylltu â'r swyddfa gyda chyfeiriad e-bost. Wrth gwrs, deallir fod hyn y broblem i rai aelodau ond gofynnir yn garedig i chwi geisio cael aelod o'r teulu neu ffrind i'w derbyn ar eich rhan, neu os nad yw hyn yn bosibl gellir cael copi called drwy'r post ond gadael i'r swyddfa wybod.

Nodyn byr i'ch atgoffa ynglyn â'r drefn pleidleisio yn y Cyfarfod Blynyddol – rhaid eich bod wedi talu eich tâl aelodaeth yn llawn cyn y gellwch benodi dirprwy (yn aelod o'r Gymdeithas a'i peidio) i fynychu'r cyfarfod ar eich rhan ac i siarad a phleidleisio felly. Rhaid i'r penodiad yma gael ei arwyddo gennych chwi a'i gyflwyno i mi cyn y gall fod yn weithredol. Cofiwch hefyd y bydd yn rhaid i'r person a benodir gennych gyflwyno'r apwyntiad i mi **cyn dechrau'r Cyfarfod Blynyddol.** Nodir hefyd na all unrhyw berson weithredu fel dirpwy dros **fwy nag un aelod.**